# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5673

# 222

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Gofynnwyd cwestiynau 1-5, 8 a 9. Tynnwyd cwestiynau 6 a 7 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 2 a 9 gan y Dirprwy Weinidog. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog Brexit ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**I'w cael gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.**

**Alun Davies (Blaenau Gwent):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adolygiad o ddatganoli a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Brif Weinidog y DU?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.21

Gwnaeth **Leanne Wood** ddatganiad am - Glyn Houston, actor o'r Rhondda.

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad am - Parc Aberdâr yn dathlu 150 mlynedd.

Gwnaeth **Rhun ap Iorwerth** ddatganiad am - Tecwyn Roberts o Landdaniel, Ynys Môn - a fu'n aelod blaengar o dîm NASA pan laniodd Apollo 11 ar y lleuad ar 20 Gorffennaf 1969.

## 5 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio) 2019

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7106** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:

Yn cytuno y dylid dirymu Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) (Diwygio) 2019, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 6 Mehefin 2019.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 19 | 27 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.53.

**NDM7116** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar yr Ymchwiliad i Gynyrchiadau Ffilm a Theledu Mawr yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.30

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7115** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Gosodwyd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 12 Chwefror 2019.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 9 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Dadl Blaid Cymru – Diwygio'r Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 17.41

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7118** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw am gynyddu'r nifer o Aelodau Cynulliad.

2. Yn galw am weithredu ar unwaith er mwyn cynyddu'r nifer o Aelodau Cynulliad erbyn dechrau'r Chweched Cynulliad.

3. Yn galw am ddiwygio system etholiadol y Cynulliad a chyflwyno system pleidlais sengl drosglwyddadwy o ethol Aelodau erbyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 40 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le;

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y panel arbenigol ar ddiwygio etholiadol y Cynulliad.

2. Yn credu nad oes awydd ymysg y cyhoedd sy'n pleidleisio i gynyddu nifer y gwleidyddion yng Nghymru ar hyn o bryd, ac y dylai ymdrechion ganolbwyntio yn hytrach ar:

a) deddfu cynigion adolygiad 2018 o Etholaethau Seneddol i'w hethol i Dŷ'r Cyffredin;

b) cyflymu'r broses o ddiwygio etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 47 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi Senedd sy'n Gweithio i Gymru a'i hargymhellion.

2. Yn cytuno bod angen cynnydd yn nifer yr Aelodau Cynulliad.

3. Yn galw am ragor o waith trawsbleidiol i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 24 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7118** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi Senedd sy'n Gweithio i Gymru a'i hargymhellion.

2. Yn cytuno bod angen cynnydd yn nifer yr Aelodau Cynulliad.

3. Yn galw am ragor o waith trawsbleidiol i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 15 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.56

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.00

**NDM7117** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Gofalu am ein gofalwyr: Sicrhau'r gydnabyddiaeth, y seibiant a'r cymorth y mae ein gofalwyr yn eu haeddu.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.24

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019**